**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

13 Chwefror 2018

Annwyl Kirsty

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 7 Chwefror, nododd y Pwyllgor ohebiaeth rhyngoch chi â grŵp o athrawon cyflenwi o'r ymgyrch i roi chwarae teg i athrawon cyflenwi (dyddiedig 30 Ionawr) a anfonwyd ymlaen at y Pwyllgor er mwyn iddo roi ei farn.

Mae'r ohebiaeth yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ers i'r grŵp gyfarfod â chi ym mis Hydref o ran cyflog ac amodau ar gyfer athrawon cyflenwi. Cyn y gallwn ymateb yn ffurfiol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y materion a godir yn yr ohebiaeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb ynglŷn â'r mater hwn.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565